Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Diogelu Plant ac Oedolion o amgylch Cŵn

Fersiwn	Manylion:	Dyddiad
V.1	Cymeradwyaeth gan Grŵp Polisi a Gweithdrefnau (Oedolion)	Tachwedd 2024
V.1	Cymeradwyaeth gan Grŵp Polisi a Gweithdrefnau (Plant)	Tachwedd 2024

1. Nodau'r Canllaw hwn

Fe fu yna nifer o ddigwyddiadau pan gafodd plant ac oedolion eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol gan gŵn y tu mewn a thu allan i gartrefi. Mae hi'n bwysig cofio nad yw hi byth yn ddiogel gadael plentyn gyda chi heb oruchwyliaeth, waeth pa mor gyfeillgar ydi'r ci neu pa mor dda yr ydych chi'n meddwl eich bod yn ei adnabod.

Prif nod y canllawiau hyn yw diogelu plant ac oedolion ar draws gogledd Cymru rhag yr anafiadau difrifol y gall cŵn sydd wedi'u gwahardd, sy'n beryglus, neu sy'n cael eu rheoli'n wael, eu hachosi.

Bwriad y canllaw hwn yw rhoi adnodd cyfeirio defnyddiol i unrhyw Ymarferydd sydd yn gweithio'n agos gyda phlant, teuluoedd neu oedolion sydd mewn perygl.

Nod y canllaw yw egluro a disgrifio:

- Y plant ac oedolion sydd fwyaf tebygol o fod yn ddiamddiffyn a'r cŵn sydd fwyaf tebygol o fod yn beryglus.
- Y wybodaeth y dylid ei chasglu pan fydd unrhyw blentyn neu oedolyn yn cael ei anafu gan gi, a'r meini prawf a ddylai achosi atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

2. Cŵn Peryglus

Mae Deddf Cŵn Peryglus (1991) yn darparu gwybodaeth fanwl am y ddeddfwriaeth sydd yn cynnwys mathau penodol o gŵn, cyfrifoldebau'r perchnogion a'r camau y gellir eu cymryd i gael gwared a/neu reoli cŵn.

Ers 13 Mai 2014, cafodd Adran 3 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, ei ymestyn i gynnwys y drosedd o fod yng ngofal ci yn beryglus allan o reolaeth mewn man cyhoeddus i 'unrhyw le yng Nghymru neu Loegr', sydd yn cynnwys mannau preifat.

Yn y DU, mae hi'n anghyfreithlon bod yn berchen ar fathau penodol o gi oni bai bod gan y perchennog dystysgrif eithrio. Y cŵn yma yw: ***Daeargi Pydew, Tosa Siapaneaidd, Dogo Argentino*** a ***Fila Braziliero***. Os oes gan unrhyw asiantaeth wybodaeth neu adroddiad am gi o'r math yma, fe ddylent roi gwybod i'r Heddlu ar unwaith drwy ffonio 101 neu e-bostio eu pryderon i Swyddfa Wybodaeth yr Heddlu a all gynnal y gwiriadau perthnasol ynglŷn â pherchnogaeth o'r fath a gwirio unrhyw eithriad.

Serch hynny, gall ***unrhyw gi***, waeth beth yw'r brîd fod yn 'beryglus' (fel y diffinnir gan Y Ddeddf) os y gwyddom ei fod eisoes wedi anafu, neu fygwth anafu.

Mae anafiadau a achosir gan fathau penodol o gi yn debygol o fod yn ddifrifol neu'n niweidiol iawn. Yn aml bydd cŵn cryf, pwerus megis Daeargwn Pydew yn defnyddio eu genau cefn (yn hytrach na 'brathu') a chyhyr gwddf pwerus i ysgwyd eu dioddefwyr yn dreisgar tra'u bod yn gafael arnynt.

Pan fydd yna adroddiadau o gŵn 'gwaharddedig' a chŵn y gwyddom sy'n beryglus neu allai fod yn beryglus yn cael eu cysylltu â phresenoldeb plant ac oedolion, dylai

pob asiantaeth fod yn ymwybodol o'r peryglon a goblygiadau posibl.

3. Perygl cynyddol

Mae pawb yn gwybod beth yw'r manteision o fod yn berchen ar anifeiliaid anwes. Gall bod ag anifail anwes gael manteision corfforol ac emosiynol ar blant ac oedolion yn ogystal â'u haddysgu am gyfrifoldebau a gofalu am greaduriaid byw. Serch hynny, mae yna beryglon, a phan fyddwch chi'n ymweld â theulu sydd â chi neu pan fyddwch chi'n gweld ci yn y gymuned, mae'n rhaid i chi ystyried a ydi'r ci yna'n achosi perygl i iechyd, datblygiad neu ddiogelwch y plentyn neu oedolyn.

Gall pob plentyn neu oedolion fod yn ddiamddiffyn i ymosodiad(au) gan gi neu gŵn.

- Mae plant ifanc a bach iawn yn debygol o fod mewn perygl mwyaf.
- Mae oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth neu Oedolion mewn perygl yn fwy tebygol o fod yn ddiamddiffyn.
- Efallai na fydd plentyn ifanc neu rai oedolion yn ymwybodol ac felly heb baratoi ar gyfer y peryglon posibl y gallent eu hwynebu.
- Efallai na fydd plentyn ifanc yn gallu amddiffyn ei hun gymaint ac yn fwy tebygol eu bod o faint sydd yn gadael rhannau diamddiffyn o'u corff yn agored i unrhyw 'ymosodiad'.
- Ci mawr mewn cartref bach.
- Ydi'r ci'n cael ei adael ar ei ben ei hun gydag oedolion neu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogi neu oedolion mewn perygl.
- Os ydych chi'n credu bod ci yn berygl difrifol i blentyn neu oedolyn, fe ddylech gysylltu â'r heddlu ar unwaith.

4. Perchnogion a Theuluoedd (yn cynnwys teulu estynedig a gofalwyr dros dro)

- Bydd llawer o sylwebwyr yn mynnu mai 'y perchennog, nid y ci' ydi'r broblem.
- Fe fydd yna achosion pan mae hyd yn oed y perchnogion 'gorau' yn methu â rhagweld neu atal ymddygiad eu ci.
- Fe fydd ***gofal, rheolaeth a chyd-destun amgylchedd ci*** heb os yn cael effaith ar eu hymddygiad a pheryglon posibl.
- Mae ymchwil yn dangos bod cŵn ysbaddedig yn llai tebygol o fod yn diriogaethol a ymosodol tuag at gŵn eraill a phobl.

Perchnogion:

- Efallai y bydd gan berchnogion sydd â chysylltiadau â gweithgareddau troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau neu drais reswm i annog ymddygiad ymosodol gan gŵn.
- Mewn rhai digwyddiadau o'r fath lle mae perchnogion wedi annog ymddygiad ymosodol gan y ci, roedd gan rai o'r perchnogion yma gysylltiadau gyda gweithgareddau troseddol, a rhai eraill ddim.

Teuluoedd, sydd â lefelau uchel o drais a thensiynau domestig:

- Yn fwy tebygol o achosi cyffro ac ymosodiadau posibl gan gŵn.
- Yn llai tebygol o werthfawrogi a rhagweld peryglon.
- Yn llai tebygol o gymryd rhagofalon angenrheidiol.
- Yn llai tebygol o warantu diogelwch yr ieuenctid mwyaf diamddiffyn.
- Mae plant bach ac ifanc iawn sy'n byw mewn teuluoedd anhrefnus neu gamweithredol yn debygol o fod yn arbennig o ddiamddiffyn.
- Mae cŵn sydd wedi'u gwahardd, cŵn peryglus neu bwerus yn debygol o achosi'r anafiadau mwyaf difrifol.

(Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014)

5. Canllaw i Ymarferwyr

Mae'r RSPCA yn cynnig y cyngor canlynol i bob gweithiwr proffesiynol sydd yn dod i gyswllt ag aelwyd lle mae ci yn byw:

"Tra'n edrych ar, neu'n gofyn am gi, meddyliwch am y pwyntiau canlynol na ddylid eu hystyried yn rhestr gyflawn, ond y bwriad yw annog chwilfrydedd proffesiynol o ran cyflwr lles y ci ynghyd â chamau gweithredu y gellir eu hawgrymu."

"Mae'r pwyntiau yn ymwneud ag Adran 9 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, sydd yn rhoi dyletswydd gofal ar unigolyn sydd yn barhaol gyfrifol neu'n gyfrifol dros dro am anifail. Mae'r dyletswydd gofal yma'n golygu bod angen cymryd camau rhesymol ym mhob sefyllfa i sicrhau bod anghenion lles anifail yn cael eu bodloni i'r graddau sydd eu hangen gan ymarfer da. Yr anghenion lles yw:

- Yr angen am amgylchedd addas.
- Yr angen am ddiet addas.
- Yr angen i allu dangos patrymau ymddygiad arferol.
- Yr angen i fod gyda, neu ar wahân i anifeiliaid eraill.
- Yr angen i gael eu hamddiffyn rhag poen, dioddef, anaf ac afiechyd.

Yn ystod yr ymweliad, gofyn a oes yna gi yn yr eiddo, yn cynnwys yr ardd gefn. Os oes yna, ac os nad ydi'r ci yn yr un ystafell â chi, gofynnwch i gael gweld y ci."

Dylai unrhyw asiantaeth sydd yn ymwybodol o gi y gallai fod wedi'i wahardd neu ei ystyried yn beryglus gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl.

- Enw a brîd y ci.
- Y perchennog.
- Y rheswm am gadw'r ci (mae cŵn sydd yn cael eu cadw a/neu eu bridio at ddibenion ymladd, amddiffyn, neu fygwth yn debygol o achosi mwy o beryglon nag anifeiliaid anwes).
- Unrhyw blant neu oedolion yn y cartref (yn enwedig plant ifanc ac oedolion mewn perygl).

Fe ddylid cofnodi'r wybodaeth yma gyda'r Heddlu trwy ffonio 101 a'i rannu gyda'r RSPCA. Fe ddylid hefyd rhannu gwybodaeth yn briodol gyda Gwasanaethau Plant ac Oedolion os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon am blentyn neu oedolyn mewn perygl, gan wneud atgyfeiriadau fel y bo angen (fel y manylir isod).

6. Pryd i wneud atgyfeiriad

Dylai pob asiantaeth **ystyried** gwneud atgyfeiriad i Wasanaethau Plant pan mae yna adroddiad bod plentyn yn cael ei anafu gan gi (neu'n agored i berygl o anaf). Dylai atgyfeiriad gael ei ystyried hefyd i Wasanaethau Oedolion os bydd oes yna adroddiad bod oedolyn mewn perygl wedi cael ei anafu gan gi, neu yn agored i berygl o anaf. Wrth benderfynu a ddylid gwneud atgyfeiriad, dylid ystyried:

- Natur yr anafiadau.
- Amgylchiadau'r ymosodiad/digwyddiad.
- Oedran y plentyn (cronolegol a datblygiadol).
- Pa unai wnaeth y rhieni/perchennog ci gesio cyngor/triniaeth feddygol.
- Pa unai ydi'r ci wedi dangos natur ymosodol yn y gorffennol.
- Pa weithred y mae rhieni/perchennog y ci wedi'i gymryd i atal hyn rhag digwydd eto

Fe all rhai atgyfeiriadau gael eu cofnodi 'er gwybodaeth' yn unig gan yr asiantaethau, os y gellir sefydlu nad oes yna berygl sylweddol neu barhaus yn debygol i'r plentyn, neu blant eraill (er enghraifft, os ydi'r ci eisoes wedi cael ei ddifa neu ei symud).

Fe ellid cyflwyno 'taflenni gwybodaeth' am 'Gŵn a Gofal Diogel Plant' ar ôl rhai atgyfeiriadau (gweler yr atodiadau), os mai mân oedd y digwyddiad neu anaf, os oedd y plentyn yn hŷn neu os ydi'r teulu'n amlwg wedi dangos eu bod yn berchnogion cŵn cyfrifol.

Mewn achosion mwy difrifol, byddai asesiadau cychwynnol neu ymholiadau adran 47 ar y cyd yn arwain at drafodaethau pellach gydag asiantaethau eraill:

- Ymweliadau cartref i gwblhau asesiadau mwy cyflawn ac i roi barn am rianta a gofal a rheoli ci/cŵn.
- Efallai y gofynnir am gyngor gan filfeddyg i bennu beth yw natur debygol neu lefel risg a gyflwynir gan y ci/cŵn.

7. Adnoddau Ychwanegol

Dyma restr o adnoddau sy'n rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol a theuluoedd i gadw plant yn ddiogel o amgylch anifeiliaid anwes. Ystyriwch pa rai sydd fwyaf defnyddiol i'ch gwaith, ac os ydynt yn berthnasol, pa rai sy'n briodol i gael eu darparu i'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw. Mae pob un yn pwysleisio'r brif neges i byth â gadael plentyn gyda chi heb oruchwyliaeth.

- **Teitl:** *Keeping babies and children safe around dogs in the home*
  Ffynhonnell: *Institute of Health Visiting*:
  https://www.cambscommunityservices.nhs.uk/docs/default- source/Luton---iHV-Top-Tips/ihv_pt_keeping_babies_and_children_safe_around_dogs_april_2017_web.pdf? sfvrsn

  Fformat: Taflen ffeithiau PDF 2 dudalen o hyd y gellir ei hargraffu.

  Disgrifiad: Mae'r adnodd yma'n cynnwys argymhellion i rieni o ran paratoi ci cyn bydd babi'n cael ei eni, sut i gadw cŵn yn ddiogel o amgylch babi, ac ymddygiad i'w annog mewn plant wrth iddynt dyfu'n hŷn a rhyngweithio gyda chŵn. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i ymwelwyr iechyd, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol eraill allai fod yn gweithio gyda babanod newydd anedig neu deulu sydd yn feichiog pan mae yna gi yn yr aelwyd yn barod, ond fe allai fod yn llai defnyddiol i blant hŷn neu deuluoedd lle mae cŵn a phlant eisoes yn bresennol yn y cartref. Wedi'i anelu at deuluoedd ac yn addas i gael ei argraffu a'i ddarparu.

- **Teitl**: *The six golden rules to keeping children safe and dogs happy*
  Ffynhonnell: RSPCA
  https://www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/pets/dogs/company/children/safe

  Fformat: Poster/ffeithlun PDF 1 tudalen y gellir ei argraffu. Mae cod hefyd ar gael i gynnwys y ffeithlun ar wefannau.

  Disgrifiad: Ffeithlun byr, gweledol sydd yn amlinellu beth i'w addysgu i blant i annog ymddygiad diogel o amgylch cŵn, wedi'i anelu at ofalwyr/teuluoedd. Gellir ei argraffu a'i ddarparu'n uniongyrchol i rieni neu ei arddangos mewn swyddfeydd neu ar wefannau. Mae hwn yn adnodd syml, defnyddiol a chofiadwy ar gyfer ymddygiad diogel ond nid yw'n ymdrin â phlant sydd methu symud neu'n sy'n anabl a methu addasu eu ymddygiad eu hunain.

- **Teitl**: Staying safe with dogs Ffynhonnell: Dogs Trust Dog Help and Advice | Dogs Trust

  Fformat: Dogfen PDF 2 dudalen y gellir ei argraffu a'i blygu mewn i daflen driphlyg.

  Disgrifiad: Yn cynnwys gwybodaeth am ddeall ymddygiad ci er mwyn adnabod y perygl. Mae hefyd yn cynnwys argymhellion am ymddygiad i'w annog mewn plant a sut i ymddwyn o amgylch cŵn nad ydym yn eu

hadnabod. Wedi'i anelu at ofalwyr/teuluoedd sydd â chŵn, ond fe allai'r argymhellion am fynd at gŵn nad ydym yn eu hadnabod fod yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol a theuluoedd nad ydynt yn berchen ar gŵn. Mae camau gweithredu i gadw plant yn ddiogel wedi'u seilio ar annog ymddygiad penodol ac nid ydyw'n ymdrin â phan nad yw hyn yn bosibl ar gyfer plant sydd methu symud a/neu'n anabl, er fe allai adnabod ymddygiad cŵn fod yn ddefnyddiol i'r teuluoedd yma.

- **Teitl**: *Keeping your toddler safe around dogs* Ffynhonnell: Blue Cross https://www.bluecross.org.uk/advice/dog/keeping-your-toddler-safe-around-dogs

  Fformat: Taflen PDF 2 dudalen o hyd y gellir ei hargraffu. Mae yna hefyd opsiwn i ofyn i Blue Cross ddarparu sgyrsiau addysgiadol i blant a theuluoedd o amgylch diogelwch anifeiliaid anwes. 4

  Disgrifiad: Dyma daflen sydd ag argymhellion i ofalwyr/teuluoedd yn benodol sydd â phlant bach. Yn sgil oedran y plant, rhoddir mwy o bwyslais ar weithredoedd y gall rhieni eu cymryd o amgylch eu ci, pa un sydd yn fwy priodol i berson ifanc neu anabl sydd methu addasu ei ymddygiad. Er bod modd argraffu'r daflen a'i rhoi i unrhyw deulu, efallai y bydd gweithwyr proffesiynol addysg neu ofal plant eisiau ystyried gwneud cais am sgwrs addysgiadol gan Blue Cross i'w ddarparu i grwpiau o blant a/neu eu teuluoedd.

- **Teitl**: *Dangerous Dogs and Safeguarding Children* Ffynhonnell: Bath and North East Somerset LSCB online procedures (SWCPP) Dangerous Dogs and Safeguarding Children (proceduresonline.com)

  Fformat: Adnodd ar-lein yn unig i weithwyr proffesiynol

  Disgrifiad: Pennod ar-lein sydd yn cynnwys cyngor i weithwyr proffesiynol am asesu peryglon i blant a chamau gweithredu y gellir eu cymryd. Mae hefyd yn cynnwys dolenni i ragor o adnoddau a chyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol megis Deddf Cŵn Peryglus (1991), Deddf Lles Anifeiliaid (2006) a Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona (2014).

Cŵn a Phlant: Awgrymiadau i'w cadw nhw'n ddiogel ac yn hapus gyda'i gilydd.

Dogs and Children | Top tips to keep them safe and happy together (capt.org.uk)

Taflen ffeithiau am eich ci a'ch babi

Your-dog-and-your-new-baby-fact-sheet-2023.pdf (capt.org.uk)

Taflen ffeithiau diogelwch plant o amgylch cŵn
Child-safety-around-dogs-fact-sheet-2023.pdf (capt.org.uk)